



Grŵp Trawsbleidiol ar
Gamblo Problemus
Cross-party Group on
Problem Gambling

**Minutes of the Cross-Party Group on Problem Gambling / Cofnodion cyfarfod y Grŵp
Trawsbleidiol ar Gamblo Problemus**

DECEMBER 10 RHAGFYR 2019

held at the Senedd's Media Briefing Room / *Stafell Briffio'r Cyfryngau yn y Senedd*
12.30 - 13.30

1. Mick Antoniw AM, Chair CPG, welcomed everyone to the meeting & introductions were made / *Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mick Antoniw AC, Cadeirydd y GT, a gwnaethpwyd cyflwyniadau*
2. Present were / **Yn bresennol 'roedd:** Prof Carwyn Jones (Cardiff Met University), Dr Frank Atherton (CMO), Jonathan Wilsher (Swansea City A.F.C.), Profs Gareth Roderique-Davies & Bev John (University of South Wales), Marina Smith (GamCare), Sian Edwards (Cardiff Metropolitan University), Katie Fry (Citizen's Advice), Ollie John (RCPsych), Dee Lally-Osborne (Living Room Cardiff and 'Beat the Odds'), Urtha Felda (GamCare Womens Project), Sarah Flourentzou and Robbie Thornhill (ARA) and Wynford Ellis Owen (Secretary to the CPG).
3. Apologies were received from / **Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth:** Dr Dai Lloyd AM/AC, Gavin Foxall and Nigel Stephenson (Newport County A.F.C.), Steven Bunting and Rob Palmizi (Citizen's Advice).
4. Minutes of the meeting held on 3rd July 2019 were approved / *Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 3ydd Gorffennaf 2019 yn gywir.*

Mick Antoniw AM chaired a panel discussion about the links between sport and gambling which will give us an opportunity to explore one of Wales' main football clubs' strategies in respect of minimizing gambling related harm on young people with Jonathan Wilsher, representing Swansea City A.F.C.; Professor Carwyn Jones, Cardiff Metropolitan University's School of Sport and Health Sciences; and Dr. Frank Atherton, Chief Medical Officer for Wales. Gavin Foxall from Newport County A.F.C. and the club's general manager, Nigel Stephenson, were unable to join us at the very last moment / *Cadeiriodd Mick Antoniw AC drafodaeth banel am y cysylltiadau rhwng chwaraeon a gamblo a rhoddwyd cyfle inni ymchwilio strategaeth un o brif glybiau pêl droed Cymru mewn perthynas â lleihau'r niwed cysylltiol ar bobl ifanc gyda Jonathan Wilsher yn cynrychioli Clwb Pêl Droed Abertawe; yr Athro Carwyn Jones, Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd; a Dr. Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru. Methodd Gavin Foxall o glwb Pêl Droed Casnewydd a rheolwr cyffredinol y Clwb, Nigel Stephenson fynychu'r drafodaeth ar y funud olaf.*

Pertinent points from the debate / *Pwyntiau perthnasol o'r drafodaeth:*

Jonathan Wilsher (JW): Swansea City A.F.C. believes that sponsorship by betting and gaming companies must be conducted in a socially responsible way. It should aim to balance



Grŵp Trawsbleidiol ar
Gamblo Problemus
Cross-party Group on
Problem Gambling

promotional opportunities with measures that help preserve the welfare of those playing or watching and who could be at risk of becoming addicted to gambling or be addicted to gambling already.

The club has made commitments with regard to how it will manage its relationships with such companies, while confirming restrictions on advertising betting on team and replica kit, club website and social media channels, marketing material, matchday and community activity. The club will also ensure players take part in a betting education programme and have access to support networks and treatment if required.

Part of a new responsible gambling pledge (see attachment – the pledge is believed to be the first of its kind in the EFL) will see the club ensure that anyone under the age of 18 can purchase a replica shirt in any size from the club shop or online that does not include the current betting partner logo of the front of shirt (subject to stock availability at the time of purchase).

Swansea City wore a new front of shirt logo for its game against Sheffield Wednesday to promote Responsible Gambling Week held from November 7-13. This was in support of an industry-wide campaign to trigger a national conversation about what it means to gamble responsibly. Interestingly, the current chair, Trevor Birch, wants to have no betting logo on shirts. The present contract was signed before he became chairman.

Swansea City lost £5 million during its 1st year outside the Premier league.

Front of shirt betting logos are worth £5 million to the club. If they went for non-betting brands, that would generate £500,000. “Gambling money helps sustain the club.”

Mae tîm pêl droed Dinas Abertawe yn credu y dylai nawdd oddi wrth gwmnïau betio a chwaraeon gael eu trin mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol. Dylid anelu at gydbwysedd rhwng cyfleoedd hyrwyddo a mesuriadau sy'n helpu diogelu'r rhai hynny sy'n chwarae a gwylïo ac sydd mewn peryg o fynd yn gaeth i gamblo neu sydd eisoes yn gaeth.

Mae'r clwb wedi gwneud ymrwymïadau mewn perthynas â sut y bydd yn rheoli'r berthynas gyda chwmnïau fel hyn, wrth gadarnhau cyfyngiadau ar hysbysebu betio ar gitiau tîm a chopïau ohonynt, gwefan y clwb a sianeli cyfryngau cymdeithasol, deunydd marchnata, digwyddiadau cymdeithasol ac ar ddiwrnodau gêm. Bydd y clwb yn sicrhau hefyd bod y chwaraewyr yn cymryd rhan mewn rhaglen addysg betio a chael mynediad at rwydweithiau cymorth a thriniaeth os oes angen.

Rhan o Addewid Gamblo Cyfrifol newydd y clwb (gweler yr atodiad - credir mai'r addewid yw'r cyntaf o'i fath yng nghynghrair pêl-droed Lloegr) fydd sicrhau bod pawb o dan oedran 18 yn gallu prynu copi o grys mewn unrhyw faint o siop y clwb neu ar-lein na fydd yn arddel logo'r partner gamblo cyfredol ar flaen y crys (yn amodol ar argaeledd stoc ar y pryd y prynir).

Gwisgodd chwaraewyr Dinas Abertawe logo blaen crys newydd ar gyfer eu gornest yn erbyn Sheffield Wednesday i hyrwyddo Wythnos Gamblo Gyfrifol gynhaliwyd rhwng Tachwedd 7 -13. Roedd hyn mewn cefnogaeth i ymgyrch ar draws y diwydiant i sbarduno sgwrs genedlaethol ynglŷn â beth mae'n golygu i gamblo'n gyfrifol. Yn ddi-ddorol iawn, dyw'r cadeirydd presennol,



Grŵp Trawsbleidiol ar
Gamblo Problemus
Cross-party Group on
Problem Gambling

Trevor Birch, ddim eisiau gweld logos betio ar grysau. Arwyddwyd y cytundeb cyfredol cyn iddo ddod yn gadeirydd.

Collodd tîm Dinas Abertawe £5 miliwn yn ystod y flwyddyn gyntaf tu allan i'r Brif Gynghrair.

Mae hysbysebu logos blaen-crys werth £5 miliwn i'r clwb. Petaent yn mynd am frandiau di-fetio, byddai hynny'n cynhyrchu £500,000. "Arian gamblo sy'n helpu cynnal y clwb."

Professor Carwyn Jones (CJ) / *Yr Athro carwyn Jones (CJ):*

11 out of 20 current Premier League clubs sponsor front of shirt logos which allows their gambling images to be on display for the whole 90 minutes of play. Rules and Regulations are primarily in place to protect the gambling industry. There was a recent example of a football player eating a pie. The betting company accepted this bet offering odds of 8-1 that 23-stone goalkeeper Wayne Shaw would eat a pie on camera during the match. He did so in the 83rd minute. Shaw - who has since resigned after the club asked him to quit - has admitted he was aware Sun Bets were offering odds on him eating a pie and told reporters after the match he did so for 'a bit of banter'.

The risk of inside information being passed and people making a profit has resulted in draconian rules and regulations being introduced to protect the gambling companies. The punishment to players/ grounds-men and clubs can be severe. The severity of this offence was highlighted recently when the Welsh National Rugby team's attack coach was sent home unceremoniously from the Rugby World Cup in Japan and banned for 18 months, half of which is suspended, for breaching these rules and regulations.

Student population is a concern as some regard Student Loans as a gift and see gambling as an 'insider skill' and as a social skill – predominately it's a "male thing". Gambling Industry doesn't currently sponsor women's teams. Women do gamble - but mainly it's casino/ recreational gambling. Developing brand loyalty is paramount for these companies. There's a social element to this which we haven't yet got the measure of.

Mae 11 allan o'r 20 clwb yn y Prif Gynghrair yn hyrwyddo logos blaen-crys sy'n galluogi'r delweddau gamblo i gael eu gweld am y 90 munud cyfan o'r gêm. Prif bwrpas y Rheolau a'r Rheoliadau yw amddiffyn y diwydiant gamblo. Roedd enghraifft ddiweddar o bêl-droediwr yn bwyta pastai. Derbyniodd y cwmni gamblo'r bet yn cynnig ods o 8-1 y byddai'r golwr 23 stôn, Wayne Shaw, yn bwyta pastai ar gamera yn ystod yr ornest. Gwnaeth hynny yn 83fed munud y gêm. Cyfaddefodd Shaw - y bu raid iddo ymddiswyddo pan ofynnodd y clwb iddo wneud - ei fod yn ymwybodol bod 'Sun Bets' yn cynnig ods arno'n bwyta'r bastai, a dywedodd wrth newyddiadurwyr ar ddiwedd yr ornest, ei fod wedi gwneud hynny 'am dipyn o hwyl'.

Roedd risg y byddai gwybodaeth fewnol yn cael ei phasio a phobl yn gwneud elw wedi arwain at gyflwyno rheolau a rheoliadau llym i amddiffyn y cwmnïau gamblo. Mae'r gosb i chwaraewyr / gofalfwr-tir a chlybiau yn gallu bod yn ddifrifol. Amlygwyd difrifoldeb y drosedd yn ddiweddar pan anfonwyd hyfforddwr ymosodiad tîm rygbi Cenedlaethol Cymru adref yn ddiseremoni o Gwpan y Byd Rygbi yn Japan a'i wahardd am 18 mis, y mae hanner ohono wedi'i atal, am dorri'r rheolau a'r rheoliadau hyn.



Grŵp Trawsbleidiol ar
Gamblo Problemus
Cross-party Group on
Problem Gambling

Mae'r boblogaeth myfyrwyr yn achos pryder gan fod rhai yn ystyried Benthyciad Myfyrwyr (Student Loan) fel rhodd ac yn gweld gamblo fel "sgil mewnol" ac fel sgil gymdeithasol - yn bennaf mae'n "beth gwrywaidd". Dyw'r diwydiant gamblo ddim yn noddi timau merched ar hyn o bryd. Mae merched yn gamblo - ond yn bennaf mae'n gamblo casino / hamdden. Mae datblygu teyrngarwch brand o'r pwys mwyaf i'r cwmnïau hyn. Mae yna elfen gymdeithasol i hyn nad ydym eto wedi cael y mesur ohono.

CMO Dr Frank Atherton (FA) / *PSM Dr Frank Atherton (FA)*

The CMO was eager to inject a note of "cautious optimism" into the debate. "Gambling isn't an evil thing; it's the harm that's caused that's evil." There's lots more awareness and understanding nowadays that gambling is a problem. "I worry over advertising overall – and there are gaps in our armament that the industry exploits." Wales currently doesn't have the levers in place in which to make some of these things happen. Wales needs a National Strategy. "We can't rely on individual clubs to set the standards. We're obliged to look at the impact on the next generation as set out in the Well-being of Future Generations Act." The Act requires public bodies in Wales to think about the long-term impact of their decisions, to work better with people, communities and each other, and to prevent persistent problems such as poverty, health inequalities and climate change.

Roedd y PSM yn awyddus i chwistrellu nodyn o "optimistiaeth ofalus" i mewn i'r drafodaeth. "Nid yw gamblo yn beth drwg, ond y niwed sy'n cael ei achosi sy'n ddrwg." Mae llawer mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y dyddiau hyn bod gamblo yn broblem. "Rwy'n poeni am hysbysebu yn gyffredinol - ac mae bylchau yn ein harfogaeth y mae'r diwydiant yn eu hecsbloetio." Ar hyn o bryd nid oes gan Gymru'r lifrau i wneud i rai o'r pethau hyn ddigwydd. Mae ar Gymru angen Strategaeth Genedlaethol. "Ni allwn ddibynnu ar glybiau unigol i osod y safonau. Mae'n rhaid i ni edrych ar yr effaith ar y genhedlaeth nesaf fel sydd wedi'i osod allan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol." Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith tymor hire u penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

5: Following the discussion there was a Q&A session / *Yn dilyn y drafodaeth bu sesiwn Holi ac Ateb.*

Some Comments: The money the gambling industry throws at football clubs is exploitative, they become financially dependent on it. *JW: £60 million lost income after being demoted from Premier League. "We'd love nothing better than to have a non-gambling brand on our shirts."*

Rhai sylwadau Mae'r arian mae'r diwydiant gamblo yn taflu at y clybiau pêl droed yn excbloetiol, dôt yn ddibynnol yn ariannol arnynt. *JW: Collwyd incwm o £60 miliwn yn dilyn y diraddiad o'r 'Premier League'. "Bydden ni yn hoffi dim gwell na chael crysau heb frandiau gamblo arnynt."*

WEO took over the chair as Mick Antoniw AM had to leave at 13.25 / *Cymrodd WEO drosodd y gadeiryddiaeth oherwydd bod Mick Antoniw AC yn gorfod gadael am 13.25.* How do you break the dependence of the clubs on the gambling industry? *FA: Do the same as with tobacco. Closing that gap – the dependency gap - is the only logical way to go. There was*



Grŵp Trawsbleidiol ar
Gamblo Problemus
Cross-party Group on
Problem Gambling

concern around the advertising element – particularly how children and young people might be targeted; women also. “There’s so much to learn in order to understand how people are being targeted.” / *Sut mae torri dibyniaeth y clybiau ar y diwydiant gamblo? FA: Gwneud yr un peth â thybaco. Cau’r bwlch - y bwlch dibynnol - yw’r unig ffordd resymol i fynd.*” Roedd pryder am agweddau hysbysebu - yn arbennig sut mae plant a phobl ifanc o bosib yn cael eu targedu; merched yn ogystal. “Mae cymaint i’w ddysgu er mwyn deall sut mae pobl yn cael eu targedu.

Generally, there was acknowledgement of what research is already telling us – and the need to act and not delay addressing problem gambling in Wales. A recognition that Problem Gambling is now a Public Health issue in Wales. The need for more restrictions on advertising and access. Greater levies on the industry commensurate with harm. Administration of treatment services independent of the industry. The need for effective provision within Wales.

Yn gyffredinol, roedd cydnabyddiaeth o beth mae’r gwaith ymchwil eisoes yn dweud wrthym - a’r angen i weithredu a pheidio gohirio delio gyda’r gamblo problemus yng Nghymru. Cydnabyddiaeth fod Gamblo Problemus yn broblem lechyd Cyhoeddus erbyn hyn yng Nghymru. Yr angen i gyfyngu ar hysbysebion gamblo a mynediad iddynt. Cynyddu’r lefi ar y diwydiant sy’n gymesur â’r niwed achosir. Gweinyddiaeth o’r gwasanaethau triniaeth sy’n annibynnol o’r diwydiant. Yr angen am wasanaethau effeithiol oddi fewn i Gymru.

WEO thanked everyone for contributing to what was a very informative and interesting Session / Diolchodd WEO i’r bawb am gyfrannu i sesiwn a oedd yn ddiddorol ac addysgiadol

6: AOB – there were none /Nid oedd unrhyw fater arall

7. Date of the next meeting: 17th March, 2020 in the Media Briefing Room (12.30 – 13.30) / Dyddiad y cyfarfod nesaf: 17eg Mawrth, 2020 yn Stafell Brifio’r Cyfryngau (12.30 - 13.30)

Chairman.....

Date.....